Bwrdd Diogelu Oedolion Canolbarth a Gorllewin • Mid and West Wales Safeguarding Adults Board •

CWMPAS

# BWRDD DIOGELU OEDOLION CANOLBARTH A GORLLEWIN CYMRU

# CWMPAS

# THE MID & WEST WALES SAFEGUARDING ADULTS BOARD

## CYNLLUN BLYNYDDOL 2017-18 ANNUAL PLAN



Cyngor Sir Gâr Carmarthenshire County Council

Cyngor Sir Penfro Pembrokeshire County Council

Powys

Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol National Probation Service

Heddlu•Police DYFED-POWYS

Cwmni Adsefydlu Cymunedol Cymru Wales Community Rehabilitation Company PRAWF PROBATION

Gweithredir gan / Operated by Working Links

GIG CYMRU NHS WALES Bwrdd Iechyd Addysgu Powys Powys Teaching Health Board

GIG CYMRU NHS WALES Iechyd Cyhoeddus Cymru Public Health Wales

GIG CYMRU NHS WALES Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda University Health Board

Y mae'n bleser mawr gennyf dderbyn cadeirydd CWPAS (Bwrdd Diogelu Oedolion Canolbarth a Gorllewin Cymru), a chyflwyno'r Cynllun Blynyddol agoriadol hwn ar gyfer 2017/18 yn ffurfiol.

Mae'r Cynllun Blynyddol yn amlinellu ein deilliannau strategol ar ddiogelu gyda chynllun weithredu cysylltiedig. Mae hefyd yn cynnwys aelodaeth y Bwrdd Gweithredol a strwythur is-grwpiau Rhanbarthol a lleol, sy'n dod o dan y Bwrdd Gweithredol. Mae'r is-grwpiau'n parhau i fod yn elfen hanfodol wrth yrru'r agenda diogelu aml-asiantaeth ar lefel rhanbarthol a lleol yn ei flaen.

Y brif ddeddfwriaeth ar gyfer diogelu a byrddau diogelu, yw Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru). Y mae'n bwysig nodi bod ein canlyniadau diogelu'n adlewyrchu gofynion y Ddeddf yn glir.

Edrychaf ymlaen at weithio gyda'n hasiantaethau partner a'n rhanddeiliaid dros y blynyddoedd nesaf ac rwy'n hyderus y gallwn, gyda'n gilydd, gyflawni ein hamcanion, gan helpu oedolion yn y rhanbarth i deimlo'n fwy diogel ac yn rhydd o gael eu hecsploetio.

**Jonathan Griffiths (Cadeirydd)**
Cyfarwyddwr Gofal Cymdeithasol a Hamdden
Cyngor Sir Penfro

**CYFLWYNIAD**

Mae Byrddau Diogelu Rhanbarthol yn gweithredu o dan Ran 7 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae llesiant ei dinasyddion yn ganolog i bolisi a deddfwriaeth gyfredol Llywodraeth Cymru. O fewn Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru), mae Llywodraeth Cymru yn ceisio diffinio a mesur llesiant ei dinasyddion mewn amrywiaeth o ffyrdd. Mae hyn yn cynnwys iechyd corfforol a meddyliol, llesiant emosiynol, llesiant cymdeithasol ac economaidd, addysg, hyfforddiant a hamdden, yn ogystal â pha mor dda y mae ei dinasyddion yn cael eu hatal a'u hamddiffyn rhag dioddef camdriniaeth, esgeulustod a mathau eraill o niwed. Felly mae'r angen i sicrhau bod dinasyddion Canolbarth a Gorllewin Cymru yn cael eu hatal a'u hamddiffyn yn ddigonol rhag dioddef camdriniaeth, esgeulustod a mathau eraill o niwed yn swyddogaeth graidd ac yn gyfrifoldeb i Fwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru.

Mae rhanbarth Canolbarth a Gorllewin Cymru'n unigryw am ei fod yn gorchuddio ardal ddaearyddol fawr gan rychwantu dros hanner màs tir Cymru. Mae hyn ynddo'i hun yn cynnig heriau o fewn cyd-destun cyrraedd gofynion cymysgedd eang ac amrywiol o gymunedau. Mae Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru, fodd bynnag, yn falch iawn o'r bartneriaeth gref a'r diwylliant cydweithio y mae wedi'i sefydlu ar draws rhanbarth mor fawr. Dros y flwyddyn nesaf,mae wedi'i ymrwymo i gryfhau ac i atgyfnerthu'r cynnydd a wnaed hyd yn hyn i ddiogelu a gwarchod aelodau mwyaf bregus ein cymunedau.

Mae Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru yn gwasanaethu cymunedau Sir Benfro, Sir Gaerfyrddin, Ceredigion a Phowys, gan weithio gyda'i gilydd yn

gydweithredol ac mewn partneriaeth o fewn lleoliad amlasiantaethol. Mae'r Bwrdd yn anelu at godi ymwybyddiaeth o faterion diogelu gydag aelodau'r cyhoedd ac yn darparu cefnogaeth, cyngor ac arweiniad i weithwyr proffesiynol sy'n gweithio yn ein cymunedau lleol sy'n darparu amrywiaeth o wasanaethau gwirfoddol a statudol. Mae hyn yn cynnwys pobl sy'n rhoi eu hamser yn wirfoddol, mewn llefydd fel clybiau ieuenctid, canolfannau cymunedol a chlybiau chwaraeon yn ogystal â gweithwyr proffesiynol fel nyrsys, ymwelwyr iechyd, athrawon, swyddogion yr heddlu, gweithwyr cymdeithasol a swyddogion prawf.

Ymdrinnir â Chanolbarth a Gorllewin Cymru gan ddau chwaer Fwrdd Diogelu:

- **CWMPAS** [*Collaborative Working & Maintaining Partnership in Adult Safeguarding / Gweithio ar y Cyd a Chynnal Partneriaeth mewn Diogelu Oedolion]:* Bwrdd Diogelu Oedolion Canolbarth a Gorllewin Cymru; **a;**
- **CYSUR** [*Child & Youth Safeguarding, Unifying the Region / Diogelu Plant ac Ieuenctid, Uno'r Rhanbarth]:* Bwrdd Diogelu Plant Canolbarth a Gorllewin Cymru.

Prif ffocws CWMPAS yw oedolion mewn perygl, er ei fod yn gweithio ar y cyd ac mewn partneriaeth â'i chwaer Fwrdd, CYSUR. Mae CWMPAS yn ymdrin â'r un ardal ddaearyddol â CYSUR ac yn gweithredu o dan yr un fframwaith deddfwriaethol. Ond ei brif ffocws yw diogelu plant a phobl ifanc a allai fod yn profi neu sydd mewn perygl o gael eu cam-drin, o brofi esgeulustod a mathau eraill o niwed. Mae byrddau CYSUR a CWMPAS yn rhannu nifer o flaenoriaethau strategol a hefyd yn gweithio gyda'i gilydd drwy gynnal nifer o is-grwpiau'r byrddau ar y cyd.

Mae CWMPAS a'i aelodau yn ceisio cyflawni ei amcanion mewn amrywiaeth o ffyrdd. Mae ei strwythur yn cynnwys Bwrdd Gweithredol trosfwaol a nifer o Is-grwpiau lleol a rhanbarthol sy'n adrodd yn uniongyrchol i ac yn cyflawni swyddogaethau ar ran Bwrdd Gweithredol CWMPAS. Mae hyrwyddo materion diogelu a darparu cymorth i weithwyr proffesiynol yn cael eu cynorthwyo gan ddarparu hyfforddiant diogelu a datblygu polisïau a gweithdrefnau rhanbarthol sy'n ceisio helpu i gefnogi ac arwain gweithwyr proffesiynol yn eu gwaith o ddydd i ddydd. Mae gan CWMPAS fecanwaith i alluogi ymarferwyr i fyfyrio ar arfer proffesiynol a dysgu gwersi pan fydd oedolion sydd mewn perygl yn marw neu'n dioddef niwed difrifol drwy gynnal Adolygiadau Ymarfer Oedolion.

Mae Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru yn ceisio cefnogi a gwella'r modd y darperir arferion diogelu gan y strwythur fel yr amlinellir yn y cynllun hwn a thrwy ei ganlyniadau a nodir a'i flaenoriaethau strategol ar gyfer 2017-2018.


## EIN GWELEDIGAETH

Gweledigaeth Bwrdd Diogelu Oedolion Rhanbarthol CWMPAS yw bod pob dinesydd yn byw eu bywydau yn rhydd rhag trais, camdriniaeth, esgeulustod a chamfanteisio a bod eu hawliau yn cael eu diogelu. Mae'r holl waith diogelu yn sensitif i ac wedi'i wreiddio'n gadarn mewn rhoi parch i wahaniaethau o ran hil, ethnigrwydd, diwylliant, gallu, ffydd a chyfeiriadedd rhywiol. Mae ymgysylltu gyda a bod yn ymatebol i anghenion yr holl randdeiliaid, gan gynnwys oedolion sydd mewn perygl, gofalwyr, darparwyr gwasanaethau a'r gymuned ehangach, yn hanfodol er mwyn hyrwyddo gweledigaeth y Bwrdd.

| Aelodaeth Bwrdd Gweithredol CWMPAS | |
|---|---|
| **Jonathan Griffiths**<br>Cyfarwyddwr Gofal Cymdeithasol a Hamdden,<br>Cyngor Sir Penfro (Cadeirydd) | Neuadd y Sir, Hwlffordd, Sir Benfro SA61 1TP |
| **Anthony Griffiths**<br>Uwch-arolygydd,<br>Heddlu Dyfed Powys (Is-gadeirydd) | Uned Amddiffyn Pobl sy'n Agored i Niwed, Pencadlys yr Heddlu, Llangynnwr, Caerfyrddin, Sir Gaerfyrddin SA31 2PF |
| **Jake Morgan**<br>Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymunedol,<br>Cyngor Sir Caerfyrddin | Neuadd y Sir, Caerfyrddin, Sir Gaerfyrddin SA31 1JP |
| **Sue Darnbrook**<br>Cyfarwyddwr Strategol: Gofal, Diogelu a Ffordd o Fyw<br>Cyngor Sir Ceredigion | Neuadd y Sir, Penmorfa, Aberaeron, Ceredigion SA46 0PA |
| **Carol Shillabeer**<br>Cyfarwyddwr Strategol Dros Dro – Pobl,<br>Cyngor Sir Powys | Neuadd y Sir, Llandrindod, Powys LD1 5LG |
| **Rhiannon Jones**<br>Cyfarwyddwr Nyrsio,<br>Bwrdd Iechyd Addysgu Powys | Pencadlys Iechyd Addysgu Powys Bwrdd, Glasbury House, Ysbyty Bronllys, Bronllys, Powys LD3 0LS |
| **Avril Bracey**<br>Pennaeth Iechyd Meddwl, Anableddau Dysgu a Diogelu Oedolion, Cyngor Sir Caerfyrddin | 3 Spilman St, Caerfyrddin, Sir Gaerfyrddin SA31 1LE |
| **Carys James**<br>Pennaeth Gwasanaethau Oedolion a Rhai a Gomisiynwyd,<br>Cyngor Sir Ceredigion | Neuadd y Sir, Penmorfa, Aberaeron, Ceredigion SA46 0PA |
| **Jason Bennett**<br>Pennaeth Gwasanaethau Oedolion,<br>Cyngor Sir Penfro | Neuadd y Sir, Hwlffordd, Sir Benfro SA61 1TP |
| **Louise Barry**<br>Pennaeth Gweithrediadau ar gyfer Gwasanaethau Oedolion,<br>Cyngor Sir Powys | Neuadd y Sir, Llandrindod, Powys LD1 5LG |
| **Christine Harley**<br>Prif Weithredwr Cynorthwyol,<br>Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol | 7 Heol Dŵr, Caerfyrddin, Sir Gaerfyrddin SA31 1PY |
| **Deanne Martin**<br>Prif Weithredwr Cynorthwyol,<br>Cwmni Adsefydlu Cymunedol Cymru | 7 Heol Dŵr, Caerfyrddin, Sir Gaerfyrddin SA31 1PY |

| | |
|---|---|
| **Mandy Davies**<br>Cyfarwyddwr Nyrsio, Ansawdd a Phrofiad y Claf,<br>Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda | Swyddfeydd Corfforaethol, Adeilad Ystwyth, Hafan Derwen, Parc Dewi Sant, Heol Ffynnon Job, Caerfyrddin, Sir Gaerfyrddin SA31 3BB |
| **Sian Passey**<br>Cyfarwyddwr Cynorthwyol Sicrwydd Nyrsio A Diogelu Nyrsio Corfforedig,<br>Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda | Ysbyty Glangwili, Heol Dolgwilli, Caerfyrddin, Sir Gaerfyrddin SA31 2AF |
| **Nicola Edwards**<br>Pennaeth Diogelu Oedolion a Phlant (Nyrs Benodol),<br>Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda | Ysbyty Glangwili, Heol Dolgwilli, Caerfyrddin, Sir Gaerfyrddin SA31 2AF |
| **Pauline Galluccio**<br>Cyfarwyddwr Cynorthwyol Diogelu (Nyrs Benodol),<br>Bwrdd Iechyd Addysgu Powys | Pencadlys Iechyd Addysgu Powys Bwrdd, Glasbury House, Ysbyty Bronllys, Bronllys, Powys LD3 0LS |
| **Debbie Pachu**<br>Nyrs Ddynodedig, Tîm Diogelu Cenedlaethol (GIG Cymru),<br>Iechyd Cyhoeddus Cymru | Tîm Diogelu Cenedlaethol (GIG Cymru), Llawr 1af, Canolfan Oldway, 36 Stryd y Berllan, Abertawe, SA1 5AQ |
| **Nikki Harvey**<br>Pennaeth Diogelu,<br>Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru | Llawr 1af, Cwrt y Castell, Ffordd y Ffenics, Abertawe SA7 9LA |
| **Steve Davis**<br>Cynrychiolydd rhanbarthol o Reolwyr Cyfiawnder Ieuenctid | Neuadd y Sir, Hwlffordd, Sir Benfro SA61 1TP |
| **Chris Harrison**<br>Cynrychiolydd rhanbarthol ar gyfer y Penaethiaid Comisiynu | Neuadd y Sir, Hwlffordd, Sir Benfro SA61 1TP |
| **Julie Breckon**<br>Rheolwr Busnes,<br>Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru | Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru<br>Neuadd y Sir, Hwlffordd, Sir Benfro SA61 1TP |

## STRWYTHUR Y BWRDD




Y Bwrdd Gweithredol:
Mae Bwrdd Gweithredol CWMPAS yn fwrdd rhanbarthol trosfwaol sy'n ceisio monitro a gwella gweithgarwch diogelu rhanbarthol. Mae'r Bwrdd Gweithredol yn cynnwys uwch swyddogion o'r holl bartneriaid ac asiantaethau statudol allweddol (gweler y tabl aelodaeth uchod). Mae'r Bwrdd Gweithredol yn ceisio sicrhau ei fod yn darparu arweinyddiaeth a chyfarwyddyd cryf i'w holl bartneriaid statudol ac mae'n gwneud hyn drwy nodi blaenoriaethau strategol blynyddol a chanlyniadau dymunol o ran gweithgarwch ac ymarfer diogelu. Mae'r Bwrdd Gweithredol hefyd yn gweithio'n agos gyda, yn cefnogi ac yn arwain Is-grwpiau lleol a rhanbarthol amrywiol CWMPAS.

Grwpiau Gweithredol Lleol:
Mae pob un o'r pedwar Awdurdod Lleol yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru yn cynnal Grwpiau Gweithredol Lleol (GGLl). Mae pwrpas, aelodaeth a strwythur y GGLl hyn yn adlewyrchu rhai'r Bwrdd Gweithredol. Ond prif nod y GGLl yw monitro a dadansoddi arferion diogelu yn lleol, yn hytrach nag yn rhanbarthol. Mae'r aelodaeth yn cynnwys Pennaeth Gwasanaethau Oedolion, sy'n cadeirio'r grŵp, uwch reolwyr a swyddogion o asiantaethau statudol lleol, gan gynnwys Iechyd, yr Heddlu a'r Gwasanaeth Prawf. Mae GGLl yn ceisio gwella arferion diogelu yn lleol trwy drafod gweithgarwch diogelu lleol mewn amgylchedd agored a thryloyw, rhannu a dadansoddi data lleol a chynnal archwiliadau o ymarfer. Mae GGLl yn ceisio rhannu a chydnabod enghreifftiau o arferion diogelu da eto byddant yn herio asiantaethau yn broffesiynol ac yn eu dal i gyfrif pan fydd arferion diogelu yn disgyn yn is na'r safonau a ddisgwylir.

Is-grŵp Adolygiad Ymarfer Oedolion Rhanbarthol:
Mae'r Is-grŵp Adolygiad Ymarfer Oedolion (AYO) yn ystyried atgyfeiriadau gan asiantaethau lle mae oedolyn sydd mewn perygl naill ai wedi marw neu wedi dioddef amhariad sylweddol ar iechyd a datblygiad o ganlyniad i gam-drin ac esgeulustod. Mae'r Is-grŵp Adolygiad Ymarfer Oedolion rhanbarthol yn ystyried gwybodaeth yn erbyn meini prawf a ddiffiniwyd o fewn 'Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl Cyfrog 3 – Adolygiadau Ymarfer Oedolion Amlasiantaethol' ac yn gwneud argymhelliad i Gadeirydd CWMPAS ynghylch a oes canlyniadau dysgu wedi eu nodi ac a ddylid cynnal Adolygiad Ymarfer Oedolion i ddysgu gwersi. Cyflawnir Adolygiadau Ymarfer gan grŵp aml-asiantaeth o weithwyr proffesiynol sy'n dadansoddi gwybodaeth ar y cyd, ac yn nodi unrhyw themâu ymarfer a gwersi i'w dysgu. Yna caiff yr adroddiad ei gyhoeddi fel Adolygiad Ymarfer Oedolion ar wefan y Bwrdd.

Is-grŵp Polisïau a Gweithdrefnau Rhanbarthol:
Mae'r Is-grŵp Polisïau a Gweithdrefnau yn gweithredu ar y cyd gyda chwaer fwrdd CWMPAS, CYSUR. Mae'r Is-grŵp hwn yn ceisio darparu canllawiau i weithwyr proffesiynol trwy ddatblygu polisïau a gweithdrefnau rhanbarthol. Mae nifer o bolisïau a gweithdrefnau lleol yn eu lle o fewn pob corff sy'n aelod. Un o amcanion allweddol CWMPAS yn 2017/18 yw gweithio tuag at ddatblygu'r rhain yn bolisïau a gweithdrefnau rhanbarthol i helpu i hyrwyddo ymateb rhanbarthol mwy cyson i arfer diogelu.

Is-grŵp Hyfforddiant Rhanbarthol:
Mae'r Is-grŵp Hyfforddiant hefyd yn gweithredu ar y cyd gyda chwaer fwrdd CWMPAS, CYSUR. Mae'n ceisio cefnogi ac arwain y gwaith o gyflwyno hyfforddiant diogelu a dysgu ar draws y pedair ardal awdurdod lleol a sefydliadau sy'n asiantaethau partner. Mae'r Is-grŵp Hyfforddiant yn gweithio'n agos gydag adrannau hyfforddi sefydliadol i sicrhau a hyrwyddo ansawdd a chysondeb hyfforddiant diogelu a darparu. Gall y grŵp gomisiynu hyfforddiant diogelu pwrpasol, arbenigol ar draws y rhanbarth ac mae'n gweithio'n agos gydag Is-grwpiau eraill fel yr Is-grŵp Adolygu Arfer Oedolion er mwyn sicrhau bod unrhyw ganlyniadau dysgu a nodwyd o ganlyniad i Adolygiadau Ymarfer Oedolion yn cael eu lledaenu i staff.

## EIN CANLYNIADAU STRATEGOL

1. Gwella Canlyniadau: Bod yn sicr bod ymatebion effeithlon, effeithiol a chydlynol i anghenion canfyddedig oedolion mewn perygl, ar draws y 'continwwm angen' sy'n arwain at ganlyniadau gwell iddynt
2. Gwell Ymgysylltu: Dangos bod llais defnyddiwr y gwasanaeth yn ganolog i'n gwaith, a bod barn oedolion sydd mewn perygl, eu teuluoedd ac ymarferwyr rheng flaen yn sail i arferion ac yn rhoi ffurf ar wasanaethau
3. Mwy o Wybodaeth: Bod yn sicr ein bod yn adnabod yr oedolion sydd yn y perygl mwyaf yn ein rhanbarth ac yn eu diogelu yn effeithiol
4. Dysgu Parhaus: Datblygu'n barhaus a gwella'r ffordd yr ydym yn gweithio er mwyn i ganlyniadau ar gyfer oedolion sydd mewn perygl wella
5. Arweinyddiaeth Gref: Darparu arweinyddiaeth strategol ar draws y bartneriaeth mewn perthynas â diogelu

6. Cydymffurfiaeth y gwelir tystiolaeth ohoni: Sicrhau bod Byrddau Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru yn gallu dangos effeithiolrwydd o ran cyflawni yn erbyn eu swyddogaethau statudol

Mae sut y bwriadwn gyflawni'r canlyniadau hyn yn cael ei amlinellu yn y cynllun busnes isod:

## EIN CYNLLUN AR GYFER 2017/18

## 1. Gwella Canlyniadau: Bod yn sicr bod ymatebion effeithlon, effeithiol a chydlynol i anghenion canfyddedig oedolion sydd mewn perygl, ar draws y 'continwwm angen' sy'n arwain at ganlyniadau gwell iddynt

**Y ffocws ar gyfer eleni:**

- Gwella'r modd y darperir gwasanaethau yn seiliedig ar ddadansoddiad o ddata Sicrhau Ansawdd rhanbarthol
- Cynyddu effeithiolrwydd Bwrdd CWMPAS o ran cydgysylltu'r busnes diogelu ar draws y rhanbarth

| Beth rydym yn mynd i'w wneud? | Sut ydym yn mynd i'w wneud? | Pwy sy'n gyfrifol? | Sut byddwn yn mesur llwyddiant? |
|---|---|---|---|
| 1.1 Gwella ansawdd y wybodaeth a ddarperir i Fwrdd Gweithredol CWMPAS mewn perthynas â gweithgaredd diogelu rhanbarthol | • Gweithredu Fframwaith Adrodd a Sicrhau Ansawdd Rhanbarthol i roi data diogelu cymaradwy rhanbarthol i'r Bwrdd Gweithredol a fydd yn nodi'r oedolion yn y perygl mwyaf, yn ogystal â themâu allweddol a thueddiadau o fewn cyd-destun cenedlaethol, rhanbarthol a lleol | Uned Fusnes Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru (BDCGC) | Y Fframwaith Adrodd a Sicrhau Ansawdd Rhanbarthol yn cael ei ddefnyddio i nodi'r oedolion yn y perygl mwyaf yn effeithiol a meysydd i'w gwella o ran darparu gwasanaethau |
| | • Casglu data lleol o GGLl ar y Fframwaith Adrodd a Sicrhau Ansawdd a dadansoddi'r modd y darperir gwasanaeth o safbwynt rhanbarthol i nodi meysydd allweddol o welliant ar draws y rhanbarth | | |
| | • Gweithredu rhaglen archwilio thematig flynyddol a fydd yn canolbwyntio ar feysydd blaenoriaeth a nodwyd | | Gweithredu rhaglen archwilio thematig |
| | • O'r archwiliadau hyn nodi canlyniadau dysgu a'u lledaenu'n lleol drwy ddatblygu rhaglen Fforwm Proffesiynol Aml-Asiantaeth ranbarthol | | Gweithredu rhaglen Fforwm Proffesiynol Aml-Asiantaeth ranbarthol |
| 1.2 Cryfhau trefniadau adrodd a llif cyfathrebu rhwng y Bwrdd Gweithredol a'r Grwpiau Gweithredol Lleol | • Parhau i wella a datblygu trefniadau 'adrodd am eithriadau' i Gadeiryddion GGLl adrodd i'r Bwrdd Gweithredol | Uned Fusnes BDCGC | Adroddiadau wedi'u targedu'n well gan Gadeirydd GGLl i Fwrdd Gweithredol CWMPAS |
| | • Cynnydd o ran cynlluniau gweithredu rhanbarthol i'w hadrodd gan GGLl i'r Bwrdd Gweithredol fel rhan o'r Fframwaith Adrodd a Sicrhau Ansawdd Rhanbarthol | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 1.3 Gwella'r cymorth busnes i'r Bwrdd ac Is-grwpiau er mwyn gwella cydlynu ffrydiau gwaith diogelu'r Bwrdd | • Datblygu cynlluniau gwaith ar gyfer yr Is-grwpiau Hyfforddiant Rhanbarthol a Pholisïau a Gweithdrefnau gyda blaenoriaethau ac amserlenni gwaith a nodir | Uned Fusnes BDCGC | Cynlluniau gwaith yn eu lle |
| | • Datblygu'r broses ar gyfer monitro cynlluniau gweithredu'r Adolygiad Ymarfer i Oedolion Rhanbarthol (AYO) a'r Fforwm Proffesiynol Aml-Asiantaeth (FfPAA) i sicrhau bod unrhyw ganlyniadau dysgu a nodir yn cael eu lledaenu | | Proses ar gyfer monitro cynlluniau gweithredu yn ei lle |
| | • Gwella effeithlonrwydd a phrydlondeb y gwaith o gylchredeg agendâu a phapurau trwy gynhyrchu calendr clir o amserlenni a therfynau amser ar gyfer y Bwrdd Gweithredol, y GGLl a chyfarfodydd Is-grwpiau | | Creu Cynlluniwr Busnes y Bwrdd ar gyfer 2017-18 |
| | • Strwythuro capasiti ar gyfer cefnogi busnes a lefelau staffio, gan gynnwys addasu'r staff presennol a recriwtio hanner swydd cefnogi busnes ychwanegol yn benodol ar gyfer cefnogi'r Bwrdd | | Yr Uned Fusnes yn gweithio ar gapasiti llawn |
| 1.4 Sefydlu trothwyon mwy cyson ar gyfer oedolion ar draws y continwwm o angen o wasanaethau cyffredinol ac ataliol i'r rhai sy'n gymwys i dderbyn gofal a chymorth a'r rheiny sydd mewn perygl o niwed ac sydd angen eu hamddiffyn | • Cwblhau dogfen trothwy rhanbarthol a fydd yn nodi ac yn egluro pa lefel o gymorth ac ymyrraeth y dylid ei darparu yn dibynnu ar lefel yr angen a nodwyd | Is-grŵp Polisïau a Gweithdrefnau | Dogfen ranbarthol yn ei lle |
| | • Sefydlu safiad rhanbarthol ar Drefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid (TDrhCRh) drwy ddatblygu ymateb cyson i reoli cyfeiriadau | | Cytunwyd ynghylch y sefyllfa ranbarthol |

## 2. Gwell Ymgysylltu: Gwell Ymgysylltu: Dangos bod llais defnyddwyr gwasanaeth yn ganolog i'n gwaith, a bod barn oedolion sydd mewn perygl, eu teuluoedd ac ymarferwyr rheng flaen yn llywio arferion a gwasanaethau siâp

**Y ffocws ar gyfer eleni:**

- Sicrhau bod oedolion sydd, neu a allai fod, yn cael eu heffeithio gan ymarfer swyddogaethau Bwrdd Diogelu CWMPAS yn gorfod cael y cyfle i gymryd rhan yng ngwaith y Bwrdd
- Gwella ymgysylltiad a chyfathrebu gyda grwpiau agored i niwed, defnyddwyr gwasanaeth ac aelodau eraill ein cymuned
- Codi ymwybyddiaeth o swyddogaethau, proffil a gweithgaredd y Bwrdd

| Beth rydym yn mynd i'w wneud? | Sut ydym yn mynd i'w wneud? | Pwy sy'n gyfrifol? | Sut byddwn yn mesur llwyddiant? |
|---|---|---|---|
| 2.1 Sicrhau bod Bwrdd Gweithredol CWMPAS yn deall ac yn ymwybodol o farn a phrofiadau ymarferwyr rheng flaen o fewn cyd-destun gwaith diogelu | • Llais a phrofiad ymarferwyr rheng flaen i gael eu nodi a'u hadrodd i'r Bwrdd Gweithredol trwy weithredu'r Fframwaith Sicrhau Ansawdd Rhanbarthol a chynnal archwiliadau ymarfer rheolaidd | Uned Fusnes BDCGC | Llais ymarferwyr yn cael ei adlewyrchu ym musnes Bwrdd CWMPAS |
| | • Sicrhau bod ymarferwyr rheng flaen yn cael eu cynnwys yn y gwaith o ddatblygu hyfforddiant, polisïau a phrotocolau | | |
| 2.2 Ystyried ffyrdd y gall y Bwrdd ymgysylltu'n fwy uniongyrchol gyda defnyddwyr gwasanaeth ac aelodau'r gymuned | • Hyrwyddo cyfranogiad ac ymgynghori â fforymau defnyddwyr gwasanaeth wrth ddatblygu ymarfer a darparu gwasanaeth | Uned Fusnes BDCGC | Ceir tystiolaeth o ymgynghori mewn prosesau datblygu |
| | • Sicrhau y gofynnir i oedolion sydd mewn perygl a'u teuluoedd am eu barn am y gwaith o ddatblygu polisïau a phrotocolau newydd | | Bod llais oedolion sydd mewn perygl a'u teuluoedd yn cael ei adlewyrchu ym musnes Bwrdd CWMPAS |
| | • Ymchwilio i'r defnydd o fformatau hawdd eu darllen, hygyrch ar gyfer yr holl ddogfennau sy'n berthnasol i'r defnyddiwr gwasanaeth | | Fformatau Hawdd eu Darllen ar gael ac yn cael eu cyhoeddi ar y wefan |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | • Fel rhan o'u Cylch Gorchwyl newydd, bydd yn ofynnol i Grwpiau Gweithredol Lleol sicrhau bod barn y grwpiau cymunedol a defnyddwyr gwasanaeth yn cael ei bwydo i mewn a'i hystyried fel rhan o'u cyfarfodydd. | Grwpiau Gweithredol Lleol | Mae sylwadau yn cael eu cofnodi ar gofnodion cyfarfodydd GGLl |
| 2.3 Gwella a gwneud y defnydd gorau o bresenoldeb ar-lein y Bwrdd i ymgysylltu â'r cyhoedd yn gyffredinol | • Datblygu gwefan y Bwrdd ymhellach i fod yn hwb ar gyfer rhannu gwybodaeth i aelodau'r cyhoedd, grwpiau cymunedol a gweithwyr proffesiynol | Uned Fusnes BDCGC | Hwb Gwybodaeth ar y wefan |
| | • Sefydlu a datblygu cysylltiadau gyda holl wefannau'r asiantaethau a phartneriaid, gan gynnwys yr BDAC pan fydd wedi ei ddatblygu | | Cysylltiadau ar y wefan |
| | • Defnyddio'r Wythnos Diogelu Genedlaethol fel llwyfan i ymgysylltu ag aelodau'r cyhoedd a'r gymuned am ddiogelu ac i godi ymwybyddiaeth am y Bwrdd, ei broffil a'i swyddogaethau. | | Trefnu digwyddiadau lleol a rhanbarthol yn ystod yr Wythnos Diogelu Genedlaethol |
| | • Datblygu deunydd cyhoeddusrwydd a defnyddio presenoldeb ar-lein CWMPAS er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r Bwrdd ymysg y cyhoedd yn gyffredinol mewn ffordd amserol | | Datganiadau i'r wasg a sylw yn y cyfryngau |
| | • Cyhoeddi Adroddiad Blynyddol CWMPAS ar y wefan i dynnu sylw at gynnydd a gweithgarwch | | Adroddiad Blynyddol yn cael ei gyhoeddi ar y wefan |

## 3. Mwy o Wybodaeth: Bod yn sicr ein bod yn adnabod y oedolion sydd yn y perygl mwyaf yn ein rhanbarth ac yn eu diogelu yn effeithiol

**Y ffocws ar gyfer eleni:**

- Hunan-niweidio a hunanladdiad
- Gwrth-Gaethwasiaeth a Masnachu mewn Pobl
- Trosglwyddo pryderon i swyddogion uwch

| Beth rydym yn mynd i'w wneud? | Sut rydym yn mynd i'w wneud? | Pwy sy'n gyfrifol? | Sut byddwn yn mesur llwyddiant? |
|---|---|---|---|
| 3.1 Hwyluso dysgu rhanbarthol mewn perthynas â hunan-niweidio a hunanladdiad | • Archwiliad rhanbarthol i'w gynnal mewn cysylltiad â hunan-niweidio a hunanladdiad fel rhan o raglen Archwiliad Rhanbarthol y Bwrdd | Uned Fusnes BDCGC | Gwell ymwybyddiaeth o sefyllfa bresennol y rhanbarth ar y mater hwn |
| | • Digwyddiad dysgu rhanbarthol ar hunanladdiad i'w drefnu a chanlyniadau dysgu i gael eu lledaenu | | Canlyniadau dysgu yn cael eu lledaenu i wella arferion yn y rhanbarth |
| 3.2 Codi ymwybyddiaeth am fater gwrth-gaethwasiaeth a'r fasnach mewn pobl ar draws y rhanbarth | • Ystyried sesiynau hyfforddi a chodi ymwybyddiaeth i sicrhau bod ymarferwyr yn fwy ymwybodol o'r mater | Is-grŵp Hyfforddiant Rhanbarthol | Sesiynau hyfforddi a chodi ymwybyddiaeth yn cael eu cyflwyno |
| | • Defnyddio CWMPAS ar-lein a phresenoldeb ar y cyfryngau cymdeithasol i hyrwyddo ymgyrchoedd ymwybyddiaeth cenedlaethol a rhyngwladol i'r cyhoedd, gan gynnwys Diwrnod Cenedlaethol Gwrth-Gaethwasiaeth a Diwrnod y Byd yn erbyn Masnachu mewn Pobl | Uned Fusnes BDCGC | Ymgyrchoedd wedi eu hyrwyddo |
| 3.3 Sefydlu safiad rhanbarthol ar drosglwyddo pryderon i swyddogion uwch | • Archwiliad Rhanbarthol i gael ei wneud ar drosglwyddo pryderon i swyddogion uwch fel rhan o'r Fframwaith Archwilio a Sicrhau Ansawdd Rhanbarthol i fod yn sail ar gyfer safiad rhanbarthol cyfredol | Uned Fusnes BDCGC | Cytunwyd ynghylch y sefyllfa ranbarthol |

## 4. Dysgu Parhaus: Datblygu'n barhaus a gwella'r ffordd yr ydym yn gweithio er mwyn i ganlyniadau ar gyfer oedolion sydd mewn perygl wella

**Y ffocws ar gyfer eleni:**

- Lledaenu dysgu ar draws y rhanbarth
- Proses Adolygu Ymarfer rhanbarthol clir a chyson
- Gwell ymwybyddiaeth o swyddogaethau statudol y Bwrdd
- Cysylltu hyfforddiant diogelu a dysgu ag arfer diogelu

| Beth rydym yn mynd i'w wneud? | Sut rydym yn mynd i'w wneud? | Pwy sy'n gyfrifol? | Sut byddwn yn mesur llwyddiant? |
|---|---|---|---|
| 4.1 Datblygu a chryfhau'r Is-grŵp Hyfforddiant Rhanbarthol i bob oed a ffurfiwyd yn ddiweddar | • Datblygu cynllun gweithredu tymor byr i ganolig i nodi a chyflwyno ar gamau blaenoriaeth gan gynnwys blaenoriaethau hyfforddi a nodwyd o'r Adolygiadau Ymarfer Oedolion rhanbarthol a'r Fforymau Proffesiynol Aml-Asiantaeth (FfPAA) | Is-Grŵp Hyfforddiant Rhanbarthol ac Uned Fusnes BDCGC | Cynllun Gweithredu Hyfforddi Rhanbarthol yn ei le |
| | • Datblygu strategaeth hyfforddi ranbarthol a fydd yn helpu i lunio a chanolbwyntio ar amcanion allweddol y grŵp a datblygu cynllun a nodau tymor hir | | Strategaeth Hyfforddi Ranbarthol yn ei lle |
| | • Nodi, recriwtio, hyfforddi a chefnogi grŵp aml-asiantaeth o ymarferwyr i arwain adolygiadau ymarfer fel Adolygwyr Annibynnol a chefnogi'r gwaith o gyflwyno rhaglen FfPAA ranbarthol | | Sefydlu cronfa o Adolygwyr Annibynnol wedi'u hyfforddi |
| 4.2 Datblygu diwylliant o ddysgu parhaus a lledaenu hyn yn eang i holl asiantaethau partner y Bwrdd ac ymarferwyr | • Datblygu rhaglen reolaidd o FfPAAau fydd yn lledaenu'r negeseuon o archwiliadau lleol a rhanbarthol fel rhan o Fframwaith Adrodd a Sicrhau Ansawdd Ranbarthol y Bwrdd | Grwpiau Gweithredol Lleol ac Uned Busnes BDCGC | Rhaglen MAPF Ranbarthol a'r broses ar gyfer lledaenu canlyniadau dysgu yn eu lle |
| 4.3 Gwella proses yr Adolygiad Ymarfer Oedolion a chryfhau cysylltiadau gyda phrosesau eraill sydd wedi'u cysoni | • Datblygu a gweithredu protocol rhanbarthol ar gyfer Adolygiadau Ymarfer Oedolion i gefnogi canllawiau Llywodraeth Cymru sydd eisoes yn bodoli, gan gynnwys y rhyngwyneb gyda'r Adolygiadau Dynladdiad Domestig (ADD) | Is-grŵp AYO ac Uned Fusnes BDCGC | Protocol AYO Rhanbarthol wedi ei ddatblygu a'i gymeradwyo |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 4.4 Gwella ymwybyddiaeth o swyddogaethau statudol y Bwrdd ymhlith ymarferwyr a gweithwyr proffesiynol | • Ymgymryd ag ymarfer cwmpasu i nodi bod swyddogaethau diogelu'r Bwrdd yn cael eu cynnwys yn y rhaglen hyfforddiant ar ddiogelu ar draws y rhanbarth | Is-grŵp Hyfforddiant | Yr ymarferiad cwmpasu wedi ei gwblhau ac unrhyw fylchau wedi eu nodi |
| 4.5 Gwella ansawdd hyfforddiant diogelu rhanbarthol | • Gweithio gyda'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol (BDAC) a Chyngor Gofal Cymru i sefydlu llinell sylfaen o ran hyfforddiant ac ymarfer diogelu | Is-grŵp Hyfforddiant | Bydd gweithgarwch hyfforddiant rhanbarthol yn cael ei adlewyrchu yn Adroddiad Blynyddol y Bwrdd |

## 5. Arweinyddiaeth Gref: Darparu arweinyddiaeth strategol ar draws y bartneriaeth mewn perthynas â diogelu

**Y ffocws ar gyfer eleni:**

- Cryfhau llywodraethu
- Adolygu a hunanasesu effeithiolrwydd y Bwrdd
- Gwella gweithio ar y cyd gyda byrddau partneriaeth rhanbarthol a chenedlaethol eraill

| Beth rydym yn mynd i'w wneud? | Sut rydym yn mynd i'w wneud? | Pwy sy'n gyfrifol? | Sut byddwn yn mesur llwyddiant? |
|---|---|---|---|
| 5.1 Cryfhau'r berthynas rhwng Grwpiau Gweithredol Lleol ar gyfer diogelu plant ac oedolion drwy gysoni trefniadau | • Grwpiau Gweithredol Lleol ar gyfer plant ac oedolion i gael eu cynnal ar yr un diwrnod ac yn yr un lleoliad ar draws y rhanbarth, gan ymgorffori adran drawsbynciol ar yr agenda i ystyried busnes diogelu lleol a materion perthnasol i blant ac oedolion | Grwpiau Gweithredol Lleol | GGLl Plant ac Oedolion wedi eu cysoni gydag adran drawsbynciol ar waith ym mhob ardal |
| | • Gweithredu Cylch Gorchwyl rhanbarthol safonol ar gyfer GGLl plant ac oedolion i annog a datblygu dull rhanbarthol mwy cyson o fewn cyd-destun strwythur cyfarfodydd, aelodaeth ac agenda | | Cylch Gorchwyl Rhanbarthol wedi ei gymeradwyo a'i weithredu |
| 5.2 Cryfhau goruchwyliaeth CWMPAS ar gyflenwi lleol | • Pob ardal leol i ddatblygu ei chynllun busnes ei hun a ddylai gyd-fynd â'r cynllun CWMPAS rhanbarthol | Grwpiau Gweithredol Lleol | Mae cynlluniau busnes ar waith ar gyfer pob GGLl |
| 5.3 Sicrhau bod llinellau clir o gyfrifoldeb a llywodraethu ar gyfer y Bwrdd a'r holl Is-grwpiau | • Bydd Cylch Gorchwyl ar gyfer y Bwrdd Gweithredol a'r holl Is-grwpiau yn cael eu datblygu, eu hadolygu a'u diweddaru, lle bo hynny'n briodol. | Uned Fusnes BDCGC | Bydd yr holl gylchoedd gorchwyl yn cael eu hadolygu a'u cymeradwyo |
| | • Datblygu pecyn sefydlu ar gyfer aelodau newydd y Bwrdd a fydd yn egluro cyfrifoldebau ac atebolrwydd asiantaethau | | Pecyn sefydlu wedi ei ddatblygu a'i gymeradwyo |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 5.4 Adolygu sut mae'r Bwrdd yn cyflawni yn erbyn ei swyddogaethau statudol craidd | • Comisiynu ymgynghorydd annibynnol i gynnal adolygiad o'r Bwrdd | Bwrdd Gweithredol CWMPAS | Adolygiad wedi ei gynnal a'r argymhellion wedi eu derbyn |
| 5.5 Cryfhau gweithio mewn partneriaeth gyda chynlluniau partneriaeth eraill sy'n gweithio yn rhanbarthol, a fydd yn helpu i nodi blaenoriaethau strategol a rennir ac osgoi dyblygu diangen | • Busnes Bwrdd Gweithredol Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (TEMCDTR) i'w gynnwys yn agenda drawsbynciol Bwrdd Gweithredol CWMPAS. | Uned Fusnes BDCGC | Busnes strategol TEMCDTR yn cael ei reoli o fewn agenda'r Bwrdd Gweithredol Diogelu |
| | • Bydd llwybrau ar gyfer cyfathrebu yn y dyfodol rhwng partneriaethau rhanbarthol yn cael eu datblygu i nodi cyfleoedd ar gyfer gweithio ar y cyd lle bo hynny'n briodol. | | Llinellau cyfathrebu clir rhwng partneriaethau sefydledig |
| 5.6 Gwella cyfathrebu rhwng Bwrdd CWMPAS a'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol (BDAC) | • Cynrychiolydd BDAC i fynychu adran drawsbynciol y Bwrdd Gweithredol yn rheolaidd a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i aelodau am weithgaredd BDAC. | Cynrychiolydd BDAC a Rheolwr BDCGC | Cynrychiolydd BDAC yn mynychu o leiaf ddau gyfarfod y flwyddyn |
| | • Bydd cyfarfodydd rheolaidd yn cael eu trefnu rhwng cynrychiolydd BDAC a rheolwr y Bwrdd; i gynnwys Cadeiryddion CYSUR a CWMPAS ar ddau achlysur y flwyddyn. | | Cynnal cyfarfodydd rheolaidd |

| 6. Cydymffurfiaeth y gwelir tystiolaeth ohoni: Sicrhau bod Byrddau Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru yn gallu dangos effeithiolrwydd o ran cyflawni yn erbyn eu swyddogaethau statudol | | | |
|---|---|---|---|
| **Y ffocws ar gyfer eleni:**<br>• Gwell arolygiaeth a monitro ar gynlluniau gweithredu strategol<br>• Datblygiad parhaus ar bolisïau a gweithdrefnau rhanbarthol<br>• Rheoli risg | | | |
| **Beth rydym yn mynd i'w wneud?** | **Sut rydym yn mynd i'w wneud?** | **Pwy sy'n gyfrifol?** | **Sut byddwn yn mesur llwyddiant?** |
| 6.1 Goruchwylio cadarn ar gynlluniau gweithredu rhanbarthol allweddol a chynnydd lleol yn cael ei fonitro'n rhanbarthol | • Cynlluniau Gweithredu ‘Operation Jasmine’ ac Adolygiad Ymarfer Oedolion (AYO) rhanbarthol i gael eu cynnwys fel eitemau sefydlog ar yr agenda yn yr holl GGLl i hunanasesu ar gynnydd yn erbyn camau gweithredu perthnasol | Grwpiau Gweithredol Lleol | Hunan-asesiad o gynlluniau gweithredu rhanbarthol yn cael ei gyflawni mewn GGLl |
| | • Cadeiryddion GGLl i adrodd ar gynnydd lleol cynlluniau gweithredu rhanbarthol ar sail egwyddor eithrio fel rhan o adroddiad Cadeiryddion GGLl i Fwrdd Gweithredol CWMPAS | | Y Bwrdd Gweithredol yn monitro cynnydd rhanbarthol ar gynlluniau gweithredu |
| 6.2 Rhannu arfer da a datblygu polisïau a gweithdrefnau diogelu ar sail ranbarthol | • Adolygu polisïau a gweithdrefnau diogelu rhanbarthol a datblygu ymhellach unrhyw rai nad ydynt mwyach yn addas i'r pwrpas, wedi dyddio neu’n aneffeithiol | Is-grŵp Polisïau a Gweithdrefnau | Polisïau a gweithdrefnau diogelu rhanbarthol cyfoes, defnyddiol ac effeithiol |
| | • Nodi arfer da mewn perthynas â pholisïau a gweithdrefnau diogelu lleol gyda'r bwriad o’u datblygu’n rhanbarthol | | |
| 6.3 Mae risgiau posibl a nodwyd gan y Bwrdd yn cael eu rheoli, eu lleihau neu eu dileu | • Cofrestr Risg Bwrdd CWMPAS i gael ei datblygu er mwyn nodi risgiau posibl a chamau lliniaru ar gyfer maes busnes y Bwrdd | Uned Fusnes BDCGC | Cofrestr Risg ar waith ac yn cael ei monitro gan holl aelodau |
| | • Sicrhau bod yr holl Is-grwpiau yn cyfrannu ac yn diweddaru'r Gofrestr Risg, lle y bo'n briodol | Yr holl Is-grwpiau | Mae’r Gofrestr Risg yn eitem sefydlog ar agenda’r holl Is-grwpiau |